

Cynnig i gau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn (dwy iaith) ac i agor Ysgol Gynradd Sirol Cyfrwng Gymraeg newydd â mwy o faint ar safle hen Ysgol Gynradd Heol y Celyn.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Mae'r asesiad yma wedi'i lunio yn unol â chyfarwyddyd yn Atodiad C o'r cylchlythyr cyfarwyddyd statudol newydd 011/2018, Cod Trefniadaeth Ysgolion, a fydd yn cael ei roi ar waith o 1 Tachwedd 2018.

Bydd ymgynghoriad ar y cynnig yma'n cael ei gynnal rhwng 15 Hydref 2018 a 31 Ionawr 2019, yn rhan o ymgynghoriad ehangach sy'n ymwneud ag ad-drefnu'r ddarpariaeth ysgol yn ardaloedd Pontypridd a'r Ddraenen Wen yn Rhondda Cynon Taf. Mae dogfen ymgynghori fanwl wedi cael ei dosbarthu i bob ymgynghorai penodedig. Mae copïau wedi cael eu hanfon i Lywodraeth Cymru, er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd yr ymgynghoriad a'r cyhoeddiad. Mae'r ddogfen yn nodi bod yr holl Asesiadau Effaith gofynnol ar gael a sut bydd modd i ymgynghoreion gael gafael ar y rhain os bydd angen.

Dyma'r ganran o ddisgyblion (ar hyn o bryd) sy'n mynychu'r ysgolion yma ac sy'n byw yn eu dalgylchoedd perthnasol:

- Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton – 91%
- Ysgol Gynradd Heol y Celyn (Ffrwd Gymraeg yn unig) – 88%

Mae nifer gymharol fawr o blant (30) sy'n byw yn nalgylch Heol y Celyn yn dewis mynychu ysgolion cyfrwng Gymraeg eraill yn yr ardal, gan gynnwys Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James. Mae'n bosibl y bydd y disgyblion yma'n dewis dychwelyd i'w hysgol dalgylch os caiff ysgol cyfrwng cwbl Gymraeg ei hadeiladu ar safle Heol y Celyn.

Ar hyn o bryd, mae'r ddwy ysgol yn cynnig clwb brechwast i bob disgybl; byddwn ni'n argymhell bod y ddarpariaeth yma'n parhau yn yr ysgol gynradd Cyfrwng Gymraeg newydd os caiff y cynigion yma eu cymeradwyo.

Dydy Ysgol Gynradd Heol y Celyn ddim yn cael ei defnyddio y tu allan i oriau'r ysgol gan sefydliadau cymuned; dim ond grwpiau sy'n ymwneud â'r ysgol sy'n ei defnyddio (e.e. Cymdeithas Rhieni ac Athrawon). Mae'r ysgol yn cynnal clwb ar ôl yr ysgol ar gyfer ei disgyblion ar dair noson o'r wythnos.

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton yn cynnal dosbarthiadau Gymraeg i Oedolion ar un noson yr wythnos, sydd wedi'u trefnu gan Brifysgol De Cymru. Mae Menter Iaith hefyd yn cynnal Clwb Carco ar gyfer disgyblion ar ddwy noson bob wythnos, ac mae'r ysgol yn cynnig ei chlybiau ar ôl yr ysgol ei hunan ar ddwy noson bob wythnos.

Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hannog yn gryf i barhau i gynnal y ddarpariaeth ar ôl yr ysgol a'r ddarpariaeth Addysg i Oedolion sy'n cael ei chynnig ar hyn o bryd, gyda chyfle i ehangu ac ymestyn hyn os oes galw cydnabyddedig.

Bwriad y cynnig yw gwella'r amgylchedd ysgol a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddisgyblion sy'n gofyn am addysg Cyfrwng Cymraeg yn ardal Pontypridd. Yn ogystal â gwella'r ddarpariaeth, y gobaith yw y bydd ysgol newydd sydd â chyfleusterau'r 21^{ain} Ganrif yn annog rhieni i ddewis addysg Cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant, gan gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni un o'r nodau allweddol sydd wedi'i amlinellu yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP). Dydy hon ddim yn ardal wledig, ac mae'r ffaith bod ysgolion a chyfleusterau cymuned eraill o fewn pellter byr yn golygu nad yw hi'n angenrheidiol ystyried gwella cyfleusterau cymuned eraill yn yr ardal leol.

Bydd dalgylch yr ysgol newydd yn cynnwys dalgylchoedd y ddwy ysgol bresennol. **Bydd adleoli Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton i safle Heol y Celyn yn golygu y bydd pob disgybl sy'n byw yn nalgylch presennol yr ysgol yma yn gymwys ar gyfer cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol gan y byddan nhw'n byw yn bellach na 1.5 milltir o'r ysgol newydd.** Fydd yr un plentyn yn rhan Heol y Celyn y dalgylch yn gymwys oherwydd na fydd yn byw yn bellach na milltir o'r ysgol. Dydyn ni ddim o'r farn y bydd y pellter yma'n rhwystro plant sydd am gymryd rhan yn y ddarpariaeth cyn, ac ar ôl, yr ysgol a fydd yn cael ei chynnig yn yr ysgol newydd rhag gwneud hynny; fydd yr un plentyn yn cymryd mwy na 20 munud i deithio i'r ysgol.

Bydd cludiant yn cael ei ddarparu ar gyfer plant yn unol â Pholisi Cludiant i Ddisgyblion y Cyngor sy'n weithredol ar adeg trosglwyddo'r ddarpariaeth i'r safle newydd. Bydd asesiadau yn cael eu cynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym ac yn cynnwys cymhwyso'r meini prawf pellter a llwybrau peryglus, os ydyn nhw'n berthnasol.